

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai  
ar nos Iau 11 Ebrill, 2019 am 1900**

## **1. PRESENNOL:**

### **Ward Llanllechid Isaf**

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

### **Ward Llanllechid Uchaf**

Y Cynghorydd Jên Morris

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Evan Jones.**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Alun Thomas, Kevin Williams, Wyn Bowen Harris a Dafydd Jones.

## **3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2019. Ychwanegiad at gofnodion 14 Chwefror 2019 –

*Eitem 8 – Rhoddion-y Cyng. Geraint Hughes wedi cynnig bod angen penodi swm o arian cyn penderfynnu ar y Rhoddion, ond heb gael ei eilio.*

*Eitem 10 – Cyllid – arian wrth gefn – cafwyd cyngor mai ond 6 mis o gostau rhedeg y Cyngor a ddylai fod wrth gefn.*

## **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Yr hen A55** - problem gyda goryrru ar y ffordd sydd yn ardal 30mya. PCSO o swyddfa'r heddlu yn Fangor wedi bod allan i fonitro'r safle, ond heb ganfod bod problem mawr yno. Y Clerc i anfon ymateb ein bod yn hynod siomedig bod penderfyniad yn cael ei wneud ar sail un ymweliad. Plant yn croesi'r ffordd i fynd i'r ysgol, a phobl yn croesi i'r safle bws. Mae angen dyn lolipop neu arwydd sy'n fflachio i rybuddio gyrrwyr.

**Crymlyn, Aber** - problem gyda lori fawr wedi dod lawr y ffordd ac wedi achosi difrod i'r bwthyn ac wedi bod yn sownd yno dros nos. Y Clerc i holi unwaith eto am yr arwyddion 'sat nav'.

**Lôn Goed** – y ffos ar hyd y ffordd angen sylw. Cyngor Gwynedd am drefnu archwiliad o'r safle a chodi archeb ar gyfer unrhyw waith angenrheidiol. Y gwaith heb ei wneud hyd yn hyn. Y ffordd angen ei ysgubo hefyd, y llefydd pasio yn enwedig. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi am ddiweddariad.

**Airfields of Britain Conservation Trust** - y plac coffa wedi ei osod. Bydd angen trefnu digwyddiad i ddathlu'r plac gyda ysgolion lleol yn y Gwanwyn. Y Cyng. Megan Tomos i gysylltu gyda Ysgol Llanllechid, er mwyn i'r disgyblion gael amser i wneud gwaith ymchwil cyn ymweld â'r plac.

**Allt Ty'n Hendre** - twll yn y wal, ar yr ochr dde ar y ffordd i lawr. Angen hysbysu Stad Penrhyn. Y Clerc i holi unwaith eto.

**Ffordd wrth Wern Bach** - twll wedi ymddangos yn y lôn unwaith eto. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi hefyd.

**Diffibriliwr** -angen holi'r gymuned am unrhyw syniad ble i'w leoli. Y Clerc i roi cais am syniadau ar dudalen 'Facebook' Ogwen. Angen holi pwyllgor y Capel unwaith eto a hefyd chwilio am brisiau defib solar.

**Giât mochyn** - adroddwyd bod angen adnewyddu'r giâtiau ar lwybrau yn Llan. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am rai newydd. Dim ymateb hyd yn hyn.

**Parc Main** - llwybr o Llwyn Penddu at Bryn Eithin - y bont pren wedi rhoi ac yn y ffoes, felly y llwybr methu cael ei ddefnyddio. Dim ymateb gan Cyngor Gwynedd hyd yn hyn.

**Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth** - draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Dim ymateb gan Gyngor Gwynedd.

**Lon Ddŵr** - tyllau mawr yn y ffordd sy'n arwain at Y Llechan. Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd. Y Cyng. Dafydd Meurig am wneud ymholiadau.

**Cyllid** - penderfynwyd penodi Is-bwyllgor Cyllid yn y cyfarfod blynyddol, gan mai Is-bwyllgor Llwybrau a Chyllid sy'n bodoli ar hyn o bryd.

**Maes carafanau Ogwen Bank** - nifer o goed, oedd i'w gweld o'r ffordd, wedi cael eu torri i lawr. Cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd bod llawer o waith yn angenrheidiol yn dilyn storm Emma.

**Y Mynydd** - wedi cael diweddariad gan Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

**Cae chwarae/peldroed Talybont** - Cyngor Gwynedd yn cynnig 'Tenancy at Will' hyd at 31 Mawrth 2020, yn dilyn diwedd y brydles presennol sy'n dod i ben Awst 2019. Y Cyngor yn fodlon gyda hyn.

## 5. Adroddiad Cyllid

Yr aelodau wedi derbyn adroddiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn 2018-19. Derbyniwyd yr adroddiadau.

## 6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Neuadd Talgai	£25.00
J Johnson-torri gwair	£100.00
Partneriaeth Ogwen - Gwasanaeth Clercio a Datblygu Cymunedol	£2317.45

## 7. Gohebiaeth

**Cyflwynwyd** - e-bost gan Steve Elms, yn holi os oedd gan unrhyw un hanes hen depo bysiau Crosville yn Llanllechid. Penderfynwyd anfon manylion cyswllt Elwyn Hughes iddo.

**Cyflwynwyd** - e-bost gan Dafydd Meurig/Cartrefi Cymunedol Gwynedd ynglŷn a'n ymholiad am y modurdai sydd i'w dymchwel ger cae chwarae Llan. Y Cyng. Dafydd Meurig am ymateb.

**Cyflwynwyd** – e-bost gan Traffig Cymru – rhaglen waith Cynnal a Chadw blynyddol A55 cyffordd 11 Llys y Gwynt i Gyffordd 36a Brychdyn rhwng 23 Ebrill a 17 Gorffennaf 2019. Nodwyd yr ohebiaeth.

## **8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr**

**Partneriaeth Ogwen**- pawb wedi derbyn adroddiad Ymgynghoriad Cymunedol Cae Peldroed Talybont. Mae angen bod yn hynod o ofalus sut i ddatblygu'r cae oherwydd y problemau llifogydd. Y Bartneriaeth i drefnu cyfarfod nesaf y gweithgor a hefyd rhoi crynodeb dwyieithog o'r adroddiad ar 'Facebook'. Y Cyng. Megan Tomos yn fodlon cyfieithu'r adroddiad.

**Cae chwarae Tal y bont, Simon Roberts, Peiriannydd Cynorthwyol Cyngor Gwynedd** –gwaith wedi ei wneud ar y safle, ond y Cyngor yn bryderus am ddyfnder y ffos (ddim digon) a hefyd bod ffos arall i'r ffynnon yn y cae heb gael ei agor o gwbl.

## **9. Penderfyniadau Cynllunio:**

**NP3/21/LB61B** (*Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb*)

Tan y Garth Bach, Gerlan

Caniatad Adeilad Rhestredig i newid ffenestri tô gyda ffenestri tô math cadwraeth.

**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru

## **Ceisiadau Cynllunio:**

**C19/0329/21/LL**

Bwthyn Carreg, 5 Tan y Lon, Talybont, Bangor

Estyniad cefn a newidiadau.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

## **10. Materion Brys**

**Llifogydd Tan Lôn** – trigolion yn hynod siomedig yn y diffyg cyfathrebu gan Gyngor Gwynedd. Llifogydd oherwydd ffosydd yn y caeau cyfagos ddim digon tyfn a bod cerrig mawr ynddynt.

**Archwilydd Mewnol** – y Cyngor yn hapus i benodi Cyngor Gwynedd ar gyfer y gwaith archwilio. Y Clerc i wneud y trefniadau.

**Cynllunio** – angen cysylltu a'r Adran Gynllunio ynglyn a gwaith sy'n mynd ymlaen mewn eiddo yn Maes y Groes.

**Coeden wedi disgyn** – yn y cae chwarae. Y Cyng. Evan Jones am ei hel.

**Gwobr Ysgol Dyffryn Ogwen** – Y Clerc i ddechrau trafodaethau gyda'r ysgol ar gyfer y noson wobryd ym mis Medi.